**EITEM AR YR AGENDA: 7**

**AWDURDOD TÂN AC ACHUB GOGLEDD CYMRU**
**PANEL GWEITHREDOL**

**18 Gorffennaf 2016**

**DANGOSYDDION PERFFORMIAD Y SECTOR**

**Adroddiad gan Shân Morris, Rheolwr Cynllunio Corfforaethol**

**Diben yr Adroddiad**

1 Rhoi gwybod i'r Aelodau am ddatblygu Dangosyddion Perfformiad y Sector ar gyfer Cymru gyfan.

**Cefndir**

2. Mae Mesur Llywodraeth Leol 2009 yn ei gwneud yn ofynnol i'r Awdurdod Tân ac Achub (ATAau) gasglu gwybodaeth am eu perfformiad ac i'w defnyddio i gymharu a gwella eu gwasanaethau.

3. Hyd yn ddiweddar, mae Llywodraeth Cymru wedi bod yn gosod dau fath o ddangosyddion perfformiad ar gyfer ATAau – sef rhai strategol a rhai craidd.

4. Ond gan ddod i rym o flwyddyn 2015/16 ymlaen, fe wnaeth Llywodraeth Cymru osod dangosyddion strategol yn unig a'i gwneud yn ofynnol yn hytrach i'r ATAau ddatblygu eu 'Dangosyddion Perfformiad eu hunain ar gyfer y Sector Cymru gyfan' "*drwy ddull partneriaeth lle cytunir ar gysondeb o ran diffiniadau, dulliau cofnodi a chyfrifiadau*".

5. Roedd cyfarwyddyd a gafwyd gan Lywodraeth Cymru ym mis Medi 2015 yn nodi amrywiaeth o ddibenion y dylid bod yn gallu defnyddio'r Dangosyddion Perfformiad yma ar gyfer y Sector Cymru gyfan, ond dywedodd y swyddogion hefyd ym mis Hydref 2015 mai nifer fechan yn unig a ddisgwylir o Dangosyddion Perfformiad y Sector.

## Gwybodaeth

6. Mae swyddogion o'r tri GTA wedi gweithio gyda'i gilydd i lunio cyfres o Ddangosyddion Perfformiad y Sector ar gyfer Cymru gyfan, gyda chanllawiau cysylltiedig ar ddiffiniadau, dulliau cofnodi a chyfrifiadau. Ceir rhestr o'r Dangosyddion Perfformiad yn Atodiad A.

7. Wrth ddatblygu'r gyfres gychwynnol hon ceisiodd y swyddogion ddefnyddio dangosyddion a diffiniadau sy'n bodoli eisoes (e.e. y Dangosyddion Perfformiad Craidd blaenorol) er mwyn cynnal cysondeb gyda'r hyn yr adroddid yn ei gylch o'r blaen ac er mwyn cymharu â pherfformiad yn y gorffennol.

8. Bydd y swyddogion yn parhau i adolygu'r gyfres gychwynnol hon er mwyn sicrhau ei bod yn parhau'n gymwys a bod cysondeb wrth gofnodi. Felly, os bydd angen ychwanegu, dileu a newid y gyfres y cytunwyd arni bydd angen i'r tri Gwasanaeth gytuno ar hynny cyn eu mabwysiadu ond ni fyddai hyn yn atal ATAau rhag cyhoeddi gwybodaeth ychwanegol gyda'r dangosyddion wrth adrodd i'r cyhoedd.

## Argymhelliad

9. Bod yr aelodau'n:

   (i) nodi'r cynnydd a wnaed wrth ddatblygu Dangosyddion Perfformiad newydd y Sector a chytuno arnynt; a

   (ii) cymeradwyo cynnwys Dangosyddion Perfformiad newydd y Sector yn nogfen Asesiad Perfformiad Blynyddol drafft yr Awdurdod 2015/16 a gaiff ei hystyried gan yr Awdurdod llawn yn ei gyfarfod ym mis Medi 2016.

Atodiad 1

**DANGOSYDDION PERFFORMIAD SECTOR Y GTA CYMRU GYFAN 2015-16**

| |
|---|
| **TANAU YR AETHPWYD ATYNT:** |
| Tanau bwriadol yr aethpwyd atynt am bob 10,000 o boblogaeth. |
| Tanau damweiniol yr aethpwyd atynt am bob 10,000 o boblogaeth. |
| Tanau yr aethpwyd atynt mewn cartrefi am bob 10,000 o gartrefi. |
| Tanau damweiniol yr aethpwyd atynt mewn cartrefi am bob 10,000 o gartrefi. |
| Tanau bwriadol yr aethpwyd atynt mewn cartrefi am bob 10,000 o gartrefi. |
| Tanau yr aethpwyd atynt ar safleoedd annomestig am bob 1,000 o safleoedd annomestig. |
| **MARWOLAETHAU ac ANAFIADAU OHERWYDD TÂN:** |
| Marwolaethau oherwydd tân am bob 100,000 o boblogaeth. |
| Anafiadau oherwydd tân am bob 100,000 o boblogaeth. |
| Marwolaethau oherwydd tanau damweiniol mewn cartrefi am bob 100,000 o boblogaeth. |
| Marwolaethau oherwydd tanau bwriadol mewn cartrefi am bob 100,000 o boblogaeth. |
| Anafiadau oherwydd tanau damweiniol mewn cartrefi am bob 100,000 o boblogaeth. |
| Anafiadau oherwydd tanau bwriadol mewn cartrefi am bob 100,000 o boblogaeth. |
| **GALWADAU DIANGEN:** |
| Galwadau diangen yr aethpwyd atynt oherwydd larymau tân awtomatig ar safleoedd annomestig am bob 1,000 o safleoedd annomestig. |
| Galwadau diangen yr aethpwyd atynt oherwydd larymau tân awtomatig mewn cartrefi am bob 10,000 o gartrefi |
| **LARYMAU MWG:** |
| Tanau mewn cartrefi yr aethpwyd atynt lle nad oedd larwm mwg fel % o’r holl danau mewn cartrefi yr aethpwyd atynt. |